

BookTrust
Bookstart

Adroddiad Effaith Dechrau Da 2025/26

Dysgu o Dechrau Da Babi, Plant Bach, Oed Cyn Ysgol/ Meithrin ac Amser Stori

BookTrust
Getting children reading

Cysylltu â ni:
queries@booktrust.org.uk

booktrust.org.uk
Dilynwch ni yn: @BookTrust

Supported using public funding by
ARTS COUNCIL ENGLAND

© BookTrust 2026
Rhif elusen gofrestredig 313343

Diolchiadau

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i bawb sy'n gweithio gyda BookTrust ar Dechrau Da:

- Y nifer mawr o Gydlynwyr Dechrau Da y mae eu hymroddiad yn ganolog i lwyddiant y rhaglen.
- Ein miloedd o bartneriaid cyflawni blynyddoedd cynnar gwerthfawr – o awdurdodau lleol, ymwelwyr iechyd, timau iechyd y cyhoedd a chanolfannau i deuluoedd i addysgwyr a gweithwyr blynyddoedd cynnar, timau meithrinfeydd, llyfrgelloedd a lleoliadau cymunedol – sy'n cefnogi'r genhadaeth a rennir gennym i sicrhau bod pob plentyn yn cael budd o ddarllen.
- Y cyhoeddwyr, yr awduron, y darlunwyr a'r sefydliadau cymheiriaid sy'n cefnogi adrodd straeon ac yn ysbrydoli plant a theuluoedd ar eu teithiau darllen.

Rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth hael rydym yn ei chael gan y rhai sy'n rhannu ein cenhadaeth i gael plant a theuluoedd i ddarllen er pleser:

- Cyngor Celfyddydau Lloegr
- Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon
- Adran Addysg Gogledd Iwerddon
- Llywodraeth Cymru

Hoffem hefyd ddiolch i'r nifer mawr o unigolion a sefydliadau a gefnogodd Dechrau Da yn 2025/26, gan gynnwys:

- Ymddiriedolaeth The Band
- Ymddiriedolaeth Beatrice Laing
- Bloomsbury Publishing
- Sefydliad Build-A-Bear
- Ymddiriedolaeth Elusennol Catherine Cookson
- Elusen Clara E Burgess
- Sefydliad Domlal Cyfyngedig
- Enterprise Mobility
- Sefydliad Eranda Rothschild
- Elusen Ystad Hyde Park Place
- Ymddiriedolaeth Julia Rausing
- Sefydliad yr Arglwydd Barnby
- Mercury
- Sefydliad Mohn Westlake
- Ymddiriedolaeth Elusennol Richard Budenberg
- Ymddiriedolaeth Rothley
- Elusen Syr Ralph Pendlebury 1880
- Ymddiriedolaeth Plwyfi'r Strand
- Waterstones
- Abaty Westminster
- Sefydliad Coffa Wyn a Ken Lo

A phob un sy'n dymuno aros yn ddienw.

Gyda'n gilydd byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod teuluoedd yn profi manteision darllen, gan fod darllen yn helpu plant i wneud y canlynol:

- Goresgyn anfantais
- Datblygu gwell lles, sgiliau cymdeithasol a pherthnasoedd cryf
- Cyrraedd cerrig milltir lleferydd ac iaith a gwneud yn well yn yr ysgol
- Datblygu eu dychymyg, eu hempathi a'u creadigrwydd

Cynnwys

Crynodeb gweithredol 4

Ynglŷn â Dechrau Da 10

Cyrhaeddiad Dechrau Da 12

Ein dull dysgu 13

Effaith Dechrau Da 14

Adeiladu ar gryfderau teuluoedd 18

Gwneud darllen ar y cyd yn haws 20

Ymwreiddio darllen ar y cyd yn y cymorth sydd eisoes yn cael ei roi i deuluoedd 24

Adeiladu ecosystemau darllen cynaliadwy, yn genedlaethol 29

Beth nesaf i Dechrau Da 32

Cyfeiriadau 36

Atodiad 37

Nodiadau ar fethodoleg 37

Nodweddion y samplau a ddefnyddiwyd 37

Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gweithgarwch ac effaith Dechrau Da yn 2025/26. Dechrau Da yw rhaglen cymorth darllen blynyddoedd cynnar BookTrust ar gyfer plant 0-5 oed, ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at adborth gan 644 o bartneriaid Dechrau Da a 2,155 o deuluoedd Dechrau Da.

Ynglŷn â Dechrau Da

Ers dros 30 mlynedd, mae Dechrau Da wedi bod yn helpu teuluoedd i fwynhau manteision darllen gyda'i gilydd o'r eiliadau cynharaf o blentyndod, fel rhan hanfodol o roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant.

Mae darllen ar y cyd yn cefnogi datblygiad plant. Mae'n creu cyfleoedd i gysylltu a chyfathrebu, ac yn helpu i feithrin gofal ymatebol. Mae'n helpu i greu amgylchedd dysgu cadarnhaol yn y cartref, gan gefnogi datblygiad iaith, sgiliau llythrennedd cynnar a lles.

Mae Dechrau Da yn seiliedig ar dystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol helaeth o fanteision darllen a'r hyn sy'n gweithio o ran cael teuluoedd i ddarllen, dealltwriaeth ddofn o brofiadau bywyd teuluoedd a mewnwelediadau o ddegawdau o weithio gyda phartneriaid ar raddfa eang.

Mae Dechrau Da yn cefnogi plant a theuluoedd ar gyfnodau allweddol o blentyndod cynnar trwy gyfres o raglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth, y mae pob un wedi'i chynllunio i sicrhau bod darllen a rhannu straeon yn hawdd, yn hygyrch ac yn bleserus. Mae rhaglenni Dechrau Da yn rhoi mynediad at lyfrau ac adnoddau am ddim, canllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a negeseuon sy'n seiliedig ar gryfderau i deuluoedd, gyda chymorth ar gyfer a chan bartneriaid blynyddoedd cynnar lleol dibynadwy.

Mae Dechrau Da yn cyfuno cyrhaeddiad cenedlaethol â gweithgarwch cyflawni lleol hyblyg i ymateb i anghenion a blaenoriaethau lleol gyda rhwydwaith sefydledig o bron i 30,000 o bartneriaid blynyddoedd cynnar mewn amryw o sefydliadau a gwasanaethau. Mae Dechrau Da yn gweithio gyda phartneriaid i nodi'r llwybrau mwyaf effeithiol i gyrraedd teuluoedd, gan ddarparu cymorth trwy wasanaethau cyffredinol yn ogystal â llwybrau sy'n canolbwyntio ar gyrraedd teuluoedd ar incwm isel, plant sydd ag anghenion arbennig neu blant o gefndiroedd teuluoedd sy'n agored i niwed.

Dechrau Da yn 2025/26 – ein cyrhaeddiad

- Gwnaeth **dros 1.1 miliwn o blant a theuluoedd**, ar draws pob cymuned yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ymgysylltu â rhaglenni Dechrau Da.
- Cyrhaeddodd **Dechrau Da Babi 568,000 o fabanod (93% o'r holl fabanod a anwyd yn 2025/26)**.
- Cyrhaeddodd **Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol/Meithrin 445,600 o blant 1–4 oed**, gan gynnwys **37% o'r holl blant 1–4 oed sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel**.
- Gwnaeth **dros 60,000 o blant 0–5 oed** ymgysylltu ag **Amser Stori Dechrau Da** yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. (O'r rhain, roedd 37% yn ymweld â'r llyfrgell am y tro cyntaf ac roedd 57% o aelwydydd incwm isel).
- Yng Nghymru, llwyddodd y rhaglenni dwyieithog **Blynyddoedd Cynnar a Pori Drwy Stori** i gyrraedd **71,800 o blant**.

Rydym yn gwybod bod mwy o alw nag y gallwn ni ei fodloni ar hyn o bryd.

Gwnaeth
dros 1.1 miliwn
o blant a theuluoedd ymgysylltu â rhaglenni Dechrau Da

Cyrhaeddodd Dechrau Da Babi
568,000 o fabanod



Dechrau Da yn 2025/26 – ein heffaith

1. Adeiladu ar gryfderau teuluoedd

Trwy annog mwynhad a chysylltiad trwy ddarllen ar y cyd, mae Dechrau Da Babi, Plant Bach, Oed Cyn Ysgol/ Meithrin ac Amser Stori yn helpu teuluoedd i wneud darllen yn rhan reolaidd o fywyd bob dydd y teulu:

- Mae **83% o rieni a gofalwyr** yn dweud bod Dechrau Da yn creu mwy o gyfleoedd i dreulio amser gwerthfawr gyda'u plentyn.
- Mae **85% o rieni a gofalwyr** yn dweud bod darllen a rhannu'r llyfrau ym mhecynnau Dechrau Da wedi eu helpu i deimlo'n agosach at eu plentyn.
- Gwnaeth **97% o rieni a gofalwyr** fwynhau defnyddio llyfrau a gweithgareddau Dechrau Da.

Mae dewis llyfrau sy'n ennyn diddordeb ac yn cefnogi ystod amrywiol o deuluoedd yn ganolog i effaith Dechrau Da. Wedi ein llywio gan gorff eang o dystiolaeth a mewnbwn gan arbenigwyr blynyddoedd cynnar a theuluoedd, rydym yn dewis llyfrau â nodweddion sy'n cefnogi mwynhad, yn gwneud rhyngweithiadau cadarnhaol a gwerth chweil yn haws, ac yn annog rhannu dro ar ôl tro.

2. Gwneud darllen ar y cyd yn haws

Mae Dechrau Da yn helpu teuluoedd i sefydlu arferion darllen trwy ennyn hyder, meithrin gwybodaeth a gwneud i ddarllen deimlo'n haws ac yn fwy cyflawnadwy:

- Gwnaeth **76% o rieni a gofalwyr** ddysgu rhywbeth newydd am ffyrdd o ddarllen neu rannu llyfrau a straeon gyda'u plentyn.
- Mae **51% o rieni a gofalwyr** yn dweud mai'r llyfrau oedd rhai o'r rhai cyntaf gawson nhw ar gyfer eu plentyn.
- Mae **80% o rieni a gofalwyr** sy'n derbyn Dechrau Da Babi a **77% o rieni a gofalwyr** sy'n derbyn Dechrau Da i Blant Bach/Oed Cyn Ysgol/Meithrin yn dweud eu bod yn darllen neu'n rhannu llyfrau a straeon mwy gyda'u plentyn nawr.

Mwy o fuddion i deuluoedd sy'n wynebu mwy o rwystrau: Mae Dechrau Da yn cydnabod bod rhai teuluoedd yn wynebu mwy o rwystrau i ddarllen ar y cyd. Mae gwerthusiadau o raglenni Dechrau Da yn dangos yn gyson eu bod yn cael hyd yn oed mwy o effaith lle gall adnoddau teuluoedd fod yn fwy cyfyngedig.

3. Ymwreiddio darllen ar y cyd yn y cymorth sydd eisoes yn cael ei roi i deuluoedd

Trwy ymwreiddio cymorth darllen yn y gwasanaethau a'r lleoliadau cymunedol sy'n bodoli eisoes, mae Dechrau Da yn creu cyfleoedd cysylltiedig i deuluoedd brofi cymorth darllen. Mae Dechrau Da yn adeiladu ar arbenigedd ac arferion y rhai sydd eisoes yn gweithio gyda theuluoedd trwy ganllawiau, offer a chymorth i bartneriaid sy'n seiliedig ar dystiolaeth:

- Mae **81% o bartneriaid** o'r farn bod Dechrau Da yn helpu i gefnogi amcanion cyffredinol eu sefydliad.
- Mae **dros 90% o bartneriaid** yn dweud bod rhaglenni Dechrau Da yn bwysig i'w sefydliad – yng Nghymru, mae 100% o bartneriaid yn dweud hyn.

Mae Dechrau Da yn cefnogi gwaith amlasiantaethol, gan helpu gwasanaethau blynyddoedd cynnar ar draws sectorau i alinio ac integreiddio darllen ar y cyd gyda chymorth ehangach i deuluoedd. Mae ein rhaglenni wedi'u cynllunio i gael eu defnyddio gan y lleoliadau amlasiantaethol hyn mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion eu cymunedau orau. Erbyn hyn, mae rhaglenni Dechrau Da wedi'u hymwreiddio mewn dros 620 o leoliadau amlasiantaethol gan gynnwys hybiau/canolfannau/ gwasanaethau teuluol.

4. Adeiladu ecosystemau darllen cynaliadwy

Trwy Dechrau Da, mae BookTrust yn darparu seilwaith cenedlaethol ar gyfer darllen ar y cyd yn y blynyddoedd cynnar, gan gefnogi uchelgeisiau polisi'r llywodraeth ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon - gan gynnwys y rhai a bennwyd ar gyfer Lloegr yn *Best Start in Life*.

Mae **Dechrau Da Babi** yn rhan sefydledig o lwybrau ymwelwyr iechyd, gan sicrhau bod cymorth darllen yn gallu cael ei gynnwys yn y cyswllt arferol a geir gyda phob teulu â babi newydd.

Mae **Dechrau Da i Blant Bach/ Oed Cyn Ysgol/Meithrin** wedi'u hymwreiddio mewn systemau blynyddoedd cynnar lleol, gyda thros 7,400 o lwybrau i gyrraedd teuluoedd ar incwm isel. Yn 2025/26, roedd y llwybrau hyn yn cynnwys 5,950 o leoliadau addysg gynnar, 620 o leoliadau amlasiantaethol, 280 o wasanaethau iechyd a 190 o elusennau a sefydliadau cymunedol.

Caiff **Amser Stori Dechrau Da** ei ddefnyddio mewn dros 90% o lyfrgelloedd cyhoeddus yn Lloegr a Gogledd Iwerddon – cyfanswm o 2,400 o lyfrgelloedd yn 2025/26. Mae partneriaid mewn llyfrgelloedd yn gweithio gyda sefydliadau lleol gan gynnwys lleoliadau addysg gynnar, canolfannau i deuluoedd, canolfannau plant, gwasanaethau cymorth cynnar a chymdeithasau tai i gysylltu teuluoedd â phlant ifanc â gwasanaethau llyfrgell.

Ochr yn ochr â chyflawni Dechrau Da, mae BookTrust yn dwyn partneriaid lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol ynghyd ac yn eu paratoi i gryfhau'r amodau sy'n galluogi plant i gael budd o ddarllen yn y blynyddoedd cynnar.



Yn y DU, rydym yn gweithio i sicrhau bod rhaglenni Dechrau Da, sydd am ddim ac sy'n cael eu hariannu gan y llywodraeth, yn cael eu defnyddio mor effeithiol â phosibl. Mewn partneriaeth â Frank Cottrell-Boyce, Llysgennad Hawliau Darllen BookTrust, mae ein hymgyrch Hawliau Darllen genedlaethol yn eirioli dros wneud darllen ar y cyd yn rhan sylfaenol o blentyndod. Fel partner blynyddoedd cynnar ar gyfer y Flwyddyn Darllen Genedlaethol, mae BookTrust yn helpu i godi proffil darllen o enedigaeth. Mae BookTrust yn cyd-gadeirio EURead (Saesneg yn unig), y llais allweddol ar ddarllen plant yn Ewrop, ac mae'n ymgynnull ac yn rheoli'r Rhwydwaith Byd-eang ar gyfer Rhoi Llyfrau Blynyddoedd Cynnar (Saesneg yn unig).

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i'r Cydlynwyr Dechrau Da a'r miloedd o bartneriaid cyflawni blynyddoedd cynnar y mae eu cefnogaeth a'u harbenigedd yn ganolog i lwyddiant BookTrust, ac i'r cyllidwyr, y cyhoeddwyr a'r crëwyr sy'n cefnogi adrodd straeon ac yn ysbrydoli teuluoedd ar eu teithiau darllen.

Rydym yn edrych ymlaen at barhau â'r gwaith rydym yn ei wneud gyda'n gilydd, gan adeiladu ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio ac adborth gan deuluoedd a phartneriaid i barhau i sicrhau bod plant ym mhob cymuned ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn profi manteision trawsnewidiol, gydol oes darllen.



Ynglŷn â Dechrau Da

Ers dros 30 mlynedd, mae Dechrau Da wedi bod yn helpu teuluoedd i fwynhau manteision darllen gyda'i gilydd o gamau cynharaf bywyd plentyn. Mae'r hyn a ddechreuodd fel prosiect peilot wedi ehangu i gyrraedd teuluoedd ym mhob cymuned leol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac, erbyn hyn, Dechrau Da yw'r rhaglen darllen blynyddoedd cynnar genedlaethol gyntaf yn y byd. Mae'r rhaglen, a ddarperir gydag ystod eang o bartneriaid, yn cyfuno cyrhaeddiad cenedlaethol â gweithgarwch cyflawni lleol hyblyg.

Mae Dechrau Da yn cefnogi plant a theuluoedd ar gyfnodau allweddol o blentyndod cynnar trwy gyfres o raglenni cysylltiedig, seiliedig ar dystiolaeth sydd wedi'u cynllunio i wneud darllen a rhannu straeon yn hawdd, yn hygyrch ac yn bleserus. Gyda'i gilydd, mae'r rhaglenni hyn yn cyfuno mynediad am ddim at lyfrau ac adnoddau â chanllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, negeseuon sy'n seiliedig ar gryfderau i deuluoedd, a chymorth ymarferol i bartneriaid lleol hyrwyddo darllen ar y cyd mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Ffigur 1: Rhaglenni Dechrau Da i blant 0–5 oed[1]



Mae rhaglenni Dechrau Da wedi'u cynllunio i gefnogi plant a theuluoedd a allai wynebu mwy o rwystrau i gyfleoedd darllen ar y cyd. Mae partneriaid lleol yn nodi'r llwybrau mwyaf effeithiol i gyrraedd y teuluoedd hyn, gan ddarparu cymorth trwy wasanaethau cyffredinol yn ogystal â llwybrau sy'n canolbwyntio ar gyrraedd teuluoedd ar incwm isel, plant o gefndiroedd teuluoedd sy'n agored i niwed neu blant ag anghenion ychwanegol.

Darganfyddwch fwy ar ein gwefan

Y manylion: Dewis llyfrau sy'n creu effaith

Mae dewis llyfrau sy'n ennyn diddordeb ac yn cefnogi ystod amrywiol o deuluoedd yn ganolog i effaith Dechrau Da. Mae dod o hyd i'r llyfrau cywir yn bwysig – oherwydd mae'r llyfrau cywir yn cefnogi mwynhad, yn gwneud rhyngweithiadau cadarnhaol a gwerth chweil yn haws, ac yn annog rhannu dro ar ôl tro dros amser.

Mae ein proses ddethol yn cael ei llywio gan ddatblygiad plant, gwyddor ymddygiadol a thystiolaeth ymchwil. Mae'n tynnu ar fewnbwn gan baneli arbenigol o bartneriaid blynyddoedd cynnar ac arbenigwyr llyfrau plant, a gweithgarwch ymgysylltu â theuluoedd. Trwy'r broses hon, rydym yn dewis llyfrau sy'n debygol o ennyn diddordeb, cefnogi rhyngweithio a chynnal ymgysylltiad.

Yr hyn rydym yn chwilio amdano mewn llyfr Dechrau Da:

- Apêl weledol, synhwyraidd a chlywedol sy'n gwahodd sylw ac yn annog archwilio.
- Fformat gwydn o ansawdd uchel y gall plant ei drin ac y bydd teuluoedd eisiau ei gadw.
- Cynnwys sy'n ddatblygiadol briodol ac sy'n gallu cefnogi gwahanol ffyrdd o gymryd rhan.
- Cyfleoedd ar gyfer chwarae dan arweiniad plant, creadigrwydd a rhyngweithio dwyochrog.
- Iaith a strwythurau sy'n gwahodd plant i ragweld ac ymuno, megis odli, ailadrodd, patrymau rhagweladwy neu naratif difyr, lle bo hynny'n briodol.
- Rhannu greddfol a hygyrch i deuluoedd sydd â gwahanol lefelau o hyder, llythrennedd a phrofiad.
- Cynrychiolaeth sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth ym mywydau a phrofiadau teuluoedd.

> "Byddwn i'n argymell **Look at Me**[2] i unrhyw un am ei fod e'n llyfr difyr iawn. Mae e' bendant wedi gwneud darllen yn fwy o hwyl. Fe welais i'r mwynhad ar ei hwyneb a meddwl, wel, efallai dylen ni ymdrechu mwy i wneud y llyfrau'n fwy o hwyl."
>
> **Rhiant sy'n derbyn Dechrau Da i Blant Bach**



Cyrhaeddiad Dechrau Da

Mae Dechrau Da yn cyrraedd teuluoedd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr, ac ym mhob cymuned yng Ngogledd Iwerddon, trwy ein model cyflawni lleol unigryw.

Yn 2025/26, cyrhaeddodd Dechrau Da fwy na 1.1 miliwn o blant a theuluoedd trwy rwydwaith helaeth o bron i 30,000 o bartneriaid sy'n gweithio ar draws lleoliadau blynyddoedd cynnar, llyfrgelloedd, canolfannau i deuluoedd, gwasanaethau iechyd a sefydliadau cymunedol.



Yng Nghymru, llwyddodd **Dechrau Da** i gyrraedd **71,800 o blant 0–5 oed trwy** ein rhaglenni dwyieithog Blynyddoedd Cynnar a Pori Drwy Stori

Cyrhaeddodd Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol/Meithrin

445,600 o blant 1–4 oed,

gan gynnwys **37% o'r holl blant 1–4 oed sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel**



Cyrhaeddodd **Amser Stori Dechrau Da** fwy na **60,000 o blant 0–5 oed** mewn llyfrgelloedd



Cyrhaeddodd **Dechrau Da Babi**

568,000 o fabanod,

sef

93% o'r holl fabanod a anwyd yn 2025/26

Cyrhaeddodd **Touch, Shine and Star Dechrau Da 23,800 o blant ag anghenion ychwanegol**





Cyrhaeddodd **Llyfrau Dwy Iaith Dechrau Da 42,400 o blant 0–5 oed,** gan gefnogi teuluoedd mewn **36 o ieithoedd** a chyrraedd **47% o deuluoedd â phlant ifanc sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol**



Ein dull dysgu



Yn BookTrust rydym wedi ymrwymo i ddysgu gan deuluoedd, partneriaid ac ymchwil ehangach er mwyn cryfhau'r ffordd y caiff ein gwaith ei ddylunio a'i gyflawni a'r effaith y mae'n ei chael yn barhaus. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu ar:

- Ein harolwg diweddaraf o Bartneriaid BookTrust. **Cymerodd 644 o bartneriaid blynyddoedd cynnar yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ran yn yr arolwg rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2026**. Mae ein partneriaid blynyddoedd cynnar yn cynnwys llyfrgelloedd, lleoliadau addysg blynyddoedd cynnar, gweithwyr iechyd proffesiynol blynyddoedd cynnar, canolfannau plant, canolfannau i deuluoedd, ysgolion cynradd yng Nghymru, a llawer mwy.
- Arolygon ar-lein a phapur gan **577 o deuluoedd a dderbyniodd ein pecynnau i blant bach neu blant oed cyn ysgol/meithrin**. Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ymatebion a dderbyniwyd rhwng mis Hydref 2025 a mis Awst 2026.
- Arolygon ar-lein gan **1,578 o deuluoedd a dderbyniodd ein pecynnau i fabanod**. Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ymatebion a dderbyniwyd rhwng mis Tachwedd 2025 a mis Awst 2026.

Gyda'i gilydd, mae'r ffynonellau hyn yn darparu darlun gwerthfawr o'r profiadau a'r canlyniadau a adroddwyd gan y teuluoedd a'r partneriaid a gymerodd ran. Caiff y canfyddiadau eu dehongli ochr yn ochr ag Arolwg Teuluoedd Cenedlaethol BookTrust, sy'n darparu cyd-destun ehangach ar ddarllen ar y cyd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Dylid darllen y canfyddiadau fel tystiolaeth o brofiad, cysylltiad a chyfraniad yn hytrach nag fel effeithiau achosol neu amcangyfrifon o'r boblogaeth. I gael rhagor o wybodaeth am y rhai a ymatebodd i'n harolwg, gweler yr Atodiad.

Mae gweithgareddau ymchwil, gwerthuso a dysgu BookTrust yn cael eu cefnogi gan fewnbwn arbenigol gan ein Grŵp Goruchwylio Dysgu (Saesneg yn unig).

Effaith Dechrau Da

Mae Dechrau Da yn mabwysiadu ymagwedd systemau tuag at newid ymddygiad, gan weithio trwy'r rhwydwaith ehangach o bobl, lleoedd a gwasanaethau sy'n dylanwadu ar arferion darllen teuluoedd. Trwy ddarparu adnoddau dibynadwy, cefnogi ymarferwyr, cryfhau partneriaethau lleol ac ymwreiddio cymorth darllen mewn systemau sy'n bodoli eisoes, mae Dechrau Da yn helpu i greu'r amodau sy'n galluogi teuluoedd i ddarllen gyda'i gilydd yn rheolaidd (Ffigur 2).

Mae ymchwil BookTrust yn nodi'n glir, er bod rhieni a gofalwyr eisiau i'w plant dreulio mwy o amser yn darllen, mae'r niferoedd sy'n darllen ar y cyd bob dydd yn lleihau. Mae llawer o deuluoedd yn wynebu pwysau cynyddol ar eu hamser, eu harferion a'u bywydau bob dydd, gan ei gwneud hi'n anoddach sefydlu a chynnal arferion darllen. Mae rhai teuluoedd yn wynebu mwy o rwystrau nag eraill, gan ehangu anghydraddoldebau o ran cael mynediad at fanteision darllen ar y cyd.

Mae'r adran hon yn archwilio effaith y dull hwn ar deuluoedd, partneriaid cyflawni, llwybrau lleol a'r seilwaith ehangach sy'n cefnogi darllen ar y cyd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Mae darllen ar y cyd yn agwedd bwysig ar yr amgylchedd dysgu yn y cartref, gan gefnogi datblygiad plant a chryfhau cysylltiadau teuluol *(Galea et al, 2025, Canfield et al 2020)*. Mae darllen gyda'n gilydd yn creu cyfleoedd i gysylltu, cyfathrebu a rhoi gofal ymatebol, gan helpu i feithrin amgylcheddau dysgu cadarnhaol yn y cartref a chefnogi lles, datblygiad iaith a sgiliau llythrennedd cynnar plant *(BookTrust, 2025b)*.

Darganfyddwch fwy yn ein hadroddiad Tueddiadau, ysgogwyr ac anghydraddoldebau darllen yn ystod plentyndod yn y DU.



Mae Dechrau Da yn bodoli er mwyn helpu teuluoedd i wneud darllen yn rhan o fywyd bob dydd a phrofi'r manteision niferus y mae'n ei gynnig. Mae ein dull yn cyfuno tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, dealltwriaeth ddofn o brofiadau bywyd teuluoedd a mewnwelediadau a gafwyd trwy ddegawdau o weithio gyda phartneriaid ar raddfa eang. Gyda'i gilydd, mae'r wybodaeth hon wedi llunio sylfeini dull Dechrau Da o greu newid parhaol mewn ymddygiadau darllen ar y cyd yn gynnar:

Adeiladu ar gryfderau teuluoedd a'r mwynhad a geir o lyfrau a straeon trwy gefnogi profiadau cadarnhaol, dyheadau a chysylltiadau emosiynol.

Gwneud darllen ar y cyd yn haws trwy gymorth sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran cael mynediad at lyfrau, gwybodaeth, hyder a chyfleoedd i sefydlu arferion darllen.


Ymwreiddio darllen ar y cyd yn y systemau sydd eisoes yn rhoi cymorth i deuluoedd, gan helpu i greu cymorth mwy cydgysylltiedig a chyson ar draws sawl pwynt cyffwrdd ym mywydau teuluoedd.

"Fy hoff sylw eleni oedd gan deulu nad oedd gan eu plentyn ddiddordeb mewn llyfrau o gwbl, ond ar ôl sesiwn Amser Stori yn y feithrinfa, mae e' wrth ei fodd â'i lyfr stori 'ladybird', doedd e' ddim yn fodlon ei roi i lawr, ac mae'n rhaid iddo ei ddarllen bob dydd. Mae adborth fel hyn gan deuluoedd yn dangos i ni bob dydd yr effaith y mae'r pecynnau yn ei chael."

Llyfrgellydd a phartner Dechrau Da



Model effaith Dechrau Da



Ffigur 2: Model effaith Dechrau Da

Adeiladu ar gryfderau teuluoedd

Trwy annog mwynhad a chysylltiad trwy ddarllen ar y cyd, mae Dechrau Da yn helpu teuluoedd i wneud darllen yn rhan reolaidd o fywyd bob dydd y teulu.

Mae ein hymchwil yn dangos bod manteision byrdymor a hirdymor darllen yn cymell rhieni a gofalwyr i ddarllen mwy gyda'u plant. Mae'r manteision uniongyrchol yn arbennig o bwysig – mae eiliadau o fwynhad, agosrwydd a chysylltiad yn gwneud y profiad yn werth chweil i'r rhiant/gofalwr a'r plentyn. Mae profi'r rhyngweithiadau cadarnhaol hyn yn annog rhieni a gofalwyr i ddarllen gyda'u plentyn yn amlach, gan helpu i sefydlu a chynnal arferion darllen *(BookTrust ac Untapped Innovation, 2023)*.

Mae Dechrau Da yn helpu teuluoedd i greu'r amser gwerthfawr hwn gyda'i gilydd, gan feithrin teimladau o agosrwydd a chreu profiadau darllen pleserus.

- Mae **83% o rieni a gofalwyr** yn dweud bod y pecynnau yn creu mwy o gyfleoedd i dreulio amser gwerthfawr gyda'u plentyn. (84% ar gyfer Dechrau Da Babi, 82% ar gyfer Dechrau Da i Blant Bach/Oed Cyn Ysgol/Meithrin)
- Mae **85% o rieni a gofalwyr** yn dweud bod darllen a rhannu'r llyfrau o'r pecynnau wedi eu helpu i deimlo'n agosach at eu plentyn. (87% ar gyfer Dechrau Da Babi, 78% ar gyfer Dechrau Da i Blant Bach/Oed Cyn Ysgol/Meithrin)
- Gwnaeth **97% o rieni a gofalwyr** fwynhau defnyddio'r llyfrau a'r gweithgareddau yn y pecyn gyda'u plentyn. (96% ar gyfer Dechrau Da Babi, 98% ar gyfer Dechrau Da i Blant Bach/Oed Cyn Ysgol/Meithrin)

Nod dyluniad apelgar pecynnau rhodd Dechrau Da a'r negeseuon cadarnhaol seiliedig ar gryfderau sy'n ei ategu yw dangos bod llyfrau yn werthfawr ac yn gyffrous. Mae mewnwelediadau ansoddol gan rieni a gofalwyr yn awgrymu bod yr apêl hon a'r cyffro yn annog plant i edrych y tu mewn i'r llyfrau *(BookTrust ac Untapped Innovation, 2023)*. Nod profiadau hwyliog a diddorol Amser Stori Dechrau Da yw helpu teuluoedd i gysylltu llyfrgelloedd a darllen ar y cyd â mwynhad, ac mae ein mewnwelediadau ansoddol yn awgrymu bod y profiadau cadarnhaol hyn yn annog teuluoedd i ymweld â'r llyfrgell eto a pharhau i ddarllen gyda'i gilydd gartref *(BookTrust, 2022)*.



Gwneud darllen ar y cyd yn haws

Mae Dechrau Da yn creu cyfleoedd i deuluoedd sefydlu arferion darllen a meithrin hyder a gwybodaeth am ddarllen ar y cyd, gan wneud i ddarllen deimlo'n haws ac yn fwy cyflawnadwy fel rhan o fywyd bob dydd y teulu.

Mae ein hymchwil yn awgrymu bod darllen ar y cyd yn haws ei gynnal pan fo llyfrau yn weladwy ac yn hawdd cael gafael arnynt yn y cartref. Mae'n cymryd llai o ymdrech pan fo rhieni a gofalwyr yn teimlo'n glir ynghylch sut all darllen ar y cyd fod yn brofiad pleserus; mae lleihau ansicrwydd yn helpu i wneud iddo deimlo'n fwy cyflawnadwy ac yn llai heriol. Lle y bo'n bosibl, gall sefydlu darllen fel rhan o drefn reolaidd ei gwneud hi'n haws i ddarllen ddod yn rhan arferol o fywyd y teulu, yn hytrach na gweithgaredd y mae'n rhaid cynllunio'n ymwybodol ar ei gyfer bob tro *(BookTrust, 2026)*.

Mae rhaglenni Dechrau Da yn adeiladu ar y wybodaeth sydd gan deuluoedd am ffyrdd o ddarllen a pham mae'n bwysig ar gamau datblygiadol allweddol, gan gynyddu hyder i ddarllen ar y cyd a helpu i'w ymwreiddio mewn arferion cynnar. Yn aml, gall Dechrau Da, yn enwedig Dechrau Da Babi, ddarparu'r llyfrau addas cyntaf i deuluoedd gartref.

- Mae **51% o rieni a gofalwyr** yn dweud mai'r llyfrau yn y pecyn oedd rhai o'r llyfrau cyntaf gawson nhw ar gyfer eu plentyn. (57% ar gyfer Dechrau Da Babi, 34% ar gyfer Dechrau Da i Blant Bach/Oed Cyn Ysgol/Meithrin)
- Mae **79% o rieni a gofalwyr** yn credu'n gryfach ym manteision darllen gyda'u plentyn ers derbyn y pecyn. (82% ar gyfer Dechrau Da Babi, 70% ar gyfer Dechrau Da i Blant Bach/Oed Cyn Ysgol/Meithrin)
- Gwnaeth **76% o rieni a gofalwyr** ddysgu rhywbeth newydd am ffyrdd o ddarllen neu rannu llyfrau a straeon gyda'u plentyn. (75% ar gyfer Dechrau Da Babi, 78% ar gyfer Dechrau Da i Blant Bach/Oed Cyn Ysgol/Meithrin)
- Mae **70%** yn teimlo'n fwy hyderus yn darllen neu'n rhannu llyfrau a straeon gyda'u plentyn oherwydd y pecyn. (69% ar gyfer Dechrau Da Babi, 70% ar gyfer Dechrau Da i Blant Bach/Oed Cyn Ysgol/Meithrin)
- Mae **69% o rieni a gofalwyr** wedi ceisio sefydlu trefn ddarllen gyda'u plentyn ers derbyn y pecyn. (72% ar gyfer Dechrau Da Babi, 61% ar gyfer Dechrau Da i Blant Bach/Oed Cyn Ysgol/Meithrin)

Mae 80% o rieni a gofalwyr sy'n derbyn Dechrau Da Babi a 77% o rieni a gofalwyr sy'n derbyn Dechrau Da i Blant Bach/Oed Cyn Ysgol/Meithrin yn dweud eu bod yn darllen neu'n rhannu llyfrau a straeon mwy gyda'u plentyn nawr. Mae llawer yn cael eu hysgogi i ymweld â'r llyfrgell: 75% o rieni a gofalwyr sy'n derbyn Dechrau Da Babi a 60% o rieni a gofalwyr sy'n ymgysylltu â Dechrau Da i Blant Bach/Oed Cyn Ysgol/Meithrin.

Mae Dechrau Da Babi yn helpu teuluoedd i ddechrau rhannu llyfrau o enedigaeth, tra bod Dechrau Da i Blant Bach/Oed Cyn Ysgol/Meithrin yn cefnogi teuluoedd wrth i blant ddod yn gyfranogwyr mwy gweithgar mewn darllen ar y cyd *(BookTrust, 2025a)*. Gyda'i gilydd, mae'r rhaglenni'n cefnogi teuluoedd ar wahanol adegau yn eu taith darllen ar y cyd, gyda chanlyniadau'n adlewyrchu anghenion a phrofiadau newidiol plant a theuluoedd dros amser.

> "Mae cefnogaeth BookTrust yn wirioneddol bwysig – mae'n rhan bwysig o bwy ydym a'r hyn rydyn ni'n ei gynnig fel gwasanaeth. Rydyn ni'n ddiolchgar am yr holl adnoddau gan BookTrust, sy'n allweddol i helpu mwy o deuluoedd i deimlo bod y llyfrgell yn fan lle maen nhw'n perthyn."
>
> **Llyfrgellydd a phartner Amser Stori**

Gall Amser Stori Dechrau Da wella cymorth darllen y tu hwnt i'r cartref trwy helpu teuluoedd i gael mynediad at lyfrau a chymorth parhaus yn eu cymuned. Bwriad Amser Stori yw helpu i annog teuluoedd i ymweld â llyfrgelloedd trwy brofiadau adrodd straeon pleserus mewn grŵp, yn enwedig y rhai na fyddent o bosibl yn mynychu fel arall neu'r rhai a allai fod yn wynebu mwy o rwystrau i ddarllen. Yn gyffredinol, ymhlith y teuluoedd a fynychodd sesiynau Amser Stori, rydym yn amcangyfrif bod:

57%
o aelwydydd **incwm isel**

37%
yn **ymweld â'r lleoliad am y tro cyntaf**

66%
wedi dychwelyd i'r llyfrgell ar ôl y sesiwn

49%
wedi cofrestru ar gyfer **aelodaeth llyfrgell**



Mwy o fuddion i deuluoedd sy'n wynebu mwy o rwystrau

Mae dyluniad Dechrau Da a'i fodel cyflawni yn cydnabod, er y gall pob teulu elwa ar gyfleoedd i ddarllen gyda'i gilydd, mae rhai yn wynebu mwy o rwystrau i'r amodau sy'n galluogi darllen ar y cyd i ffynnu.


Mae ein canfyddiadau'n dangos bod Dechrau Da yn arbennig o werthfawr i deuluoedd a allai fod yn wynebu mwy o rwystrau i gael mynediad at lyfrau a sefydlu arferion darllen ar y cyd. Mae teuluoedd ar incwm isel yn fwy tebygol o nodi bod llyfrau Dechrau Da ymhlith y llyfrau cyntaf maen nhw'n eu cael i'w plentyn, eu bod yn ymgysylltu â'r llyfrau hyn yn amlach a'u bod yn fwy diddorol, yn eu barn nhw, na'r llyfrau eraill sydd ganddynt.

> "Roeddwn i'n hapus iawn i gael y pecyn gan nad oes gennym lawer o lyfrau ac maen nhw'n costio llawer ... fel mam sengl gyda phedwar o blant i'w cefnogi, mae'n anodd cael [llyfrau]. Rwy'n ei chael hi'n anodd darllen fy hun felly mae cael y pecyn yn help mawr, gan ei fod yn helpu gyda llyfrau sy'n dda i fy mabi, gan nad wyf yn gallu darllen pethau i ddod o hyd i lyfrau da i ni eu darllen."
>
> **Rhiant sy'n derbyn Dechrau Da i Blant Bach/Oed Cyn Ysgol/ Meithrin**

Ffigur 3: Gwahaniaethau yn y canlyniadau a adroddwyd yn ôl grŵp incwm, ar gyfer Dechrau Da Babi a Dechrau Da i Blant Bach/Oed Cyn Ysgol/Meithrin

- Teuluoedd ar incwm isel
- Teuluoedd nad ydynt ar incwm isel

Y llyfrau yn y pecyn hwn oedd rhai o'r llyfrau cyntaf a oedd gennym ar gyfer fy mhlentyn



Mae'r llyfrau yn fwy o help i ennyn diddordeb fy mhlentyn mewn darllen a rhannu straeon o gymharu â llyfrau eraill



Mae effaith Dechrau Da hefyd yn gyson gryfach lle y gall adnoddau teuluoedd fod yn fwy cyfyngedig. Mae teuluoedd ar incwm isel yn fwyaf tebygol o nodi eu bod yn credu'n fwy ym manteision darllen gyda'i gilydd, bod ganddynt fwy o wybodaeth a hyder ynghylch darllen ar y cyd, a'u bod yn darllen yn amlach gyda'u plentyn o ganlyniad i Dechrau Da Babi a Dechrau Da i Blant Bach/Oed Cyn Ysgol/Meithrin.

> "Roedd e'n gwneud i ddarllen i fy mabi deimlo'n llai brawychus a di-bwrpas. Doeddwn i ddim yn sylweddoli'r manteision o ran bondio a rhoi rhywbeth i mi ddweud wrth fy mhlentyn trwy ddarllen, oherwydd roeddwn i'n teimlo braidd yn wirion yn siarad trwy'r amser ar y dechrau."
>
> **Rhiant sy'n derbyn Dechrau Da Babi**

Ffigur 4: Gwahaniaethau yn y canlyniadau a adroddwyd yn ôl grŵp incwm, ar gyfer Dechrau Da Babi a Dechrau Da i Blant Bach/Oed Cyn Ysgol/Meithrin

- Teuluoedd ar incwm isel
- Teuluoedd nad ydynt ar incwm isel

Rwy'n credu'n gryfach ym manteision darllen



Rwyf wedi dysgu rhywbeth newydd am ffyrdd o rannu straeon



Rwy'n teimlo'n fwy hyderus yn rhannu straeon



Mae'r pecyn wedi fy ysgogi i ddarllen/rhannu llyfrau a straeon mwy gyda fy mabi/plentyn



Ymwreiddio darllen ar y cyd yn y cymorth sydd eisoes yn cael ei roi i deuluoedd


Trwy ymwreiddio cymorth darllen yn y lleoliadau cymunedol a'r gwasanaethau cymorth sy'n bodoli eisoes i deuluoedd, mae Dechrau Da yn helpu i greu cyfleoedd mwy cyson a chysylltiedig i deuluoedd ddod ar draws llyfrau, cymorth darllen ac anogaeth trwy gydol y blynyddoedd cynnar.

Mae Dechrau Da wedi'i chynllunio i adeiladu ar arbenigedd ac arferion y rhai sydd eisoes yn gweithio gyda theuluoedd, gan ddarparu adnoddau ffisegol a digidol i deuluoedd ochr yn ochr â chanllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, offer i ymarferwyr, cymorth i bartneriaid a chyfleoedd i rannu dysgu ar draws ein rhwydwaith. Gyda'i gilydd, mae'r adnoddau hyn yn helpu partneriaid i addasu ac ymwreiddio Dechrau Da mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu eu blaenoriaethau ac anghenion teuluoedd lleol.

Mae darllen ar y cyd yn gynnar yn cefnogi ystod eang o ganlyniadau i blant a theuluoedd. Gall gwahanol wasanaethau blynyddoedd cynnar gyda blaenoriaethau gwahanol alinio â darllen fel nod cyffredin, gan ddefnyddio rhaglenni Dechrau Da fel cyfrwng a rennir i gefnogi datblygiad plant, cryfhau perthnasoedd teuluol a lleihau anghydraddoldebau.

- Mae **81% o bartneriaid** o'r farn bod Dechrau Da yn helpu i gefnogi amcanion cyffredinol eu sefydliad
- Mae **dros 90% o bartneriaid** yn dweud bod rhaglenni Dechrau Da yn bwysig i'w sefydliad (100% o bartneriaid yng Nghymru)

Ffigur 5: Canran y partneriaid sy'n nodi bod adnoddau BookTrust yn effeithiol wrth gefnogi canlyniadau



Y manylion: Ymwreiddio darllen ar y cyd yn y cymorth sy'n cael ei roi i deuluoedd

Yn Glenbrook Sure Start yn Belfast, mae'r tîm o ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymorth i deuluoedd ac ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn defnyddio Dechrau Da i Blant Bach fel rhan o'r cymorth ehangach sy'n cael ei roi i deuluoedd â phlant ifanc. Yn hytrach na bod yn ymyrraeth annibynnol, mae Dechrau Da wedi'i wehyddu i mewn i amseroedd stori a gweithgareddau grŵp a rhyngweithiadau un-i-un â theuluoedd. Mae staff yn defnyddio adnoddau Dechrau Da i ddangos gwerth darllen ar y cyd, cefnogi datblygiad a lles plant, a helpu teuluoedd i gynnwys darllen yn eu harferion bob dydd.

Mae Martina Hannon, sy'n Ymwelydd Iechyd, yn esbonio bod llawer o rieni yn credu i ddechrau bod eu plentyn yn rhy ifanc ar gyfer llyfrau, felly mae'r staff yn modelu sut i rannu straeon yn ystod sesiynau i ddangos sut y gall plant fwynhau llyfrau o oedran ifanc:

> "Pan fydd rhieni'n cael eu cyflwyno i'r syniad o ddefnyddio llyfrau i greu eu stori eu hunain, neu ofyn cwestiynau i'w plentyn wrth fynd ymlaen, mae'n newid y ffordd mae'r gweithgaredd yn cael ei gyflwyno yn llwyr – mae'n ei helpu i ymddangos yn llawer mwy rhyngweithiol a phleserus."

Mae Caroline Donnelly, sy'n Gydlynydd Dysgu Cynnar, yn esbonio sut maent hefyd yn defnyddio adnoddau Dechrau Da i atgyfnerthu negeseuon am ddatblygiad a lles plant, gan ddarparu llyfrau ac adnoddau wedyn y gall teuluoedd fynd â nhw adref:

> "Ar ôl defnyddio'r pecynnau yn ein gwaith gyda theuluoedd, rydyn ni hefyd yn gweld rhieni nad oes ganddyn nhw lawer o brofiad o ddarllen efallai yn mynd i gornel gyda llyfr a'u plentyn, ac yn mwynhau'r stori. Mae llyfrau BookTrust yn ennyn llawer o ddiddordeb – mae ganddyn nhw liwiau cryf, mewnbwn synhwyraidd, ac maen nhw'n addas ar gyfer adrodd y stori o'r lluniau, nid y geiriau, sy'n creu'r hud hwnnw i'r rhiant a'r plentyn."

Mae Dechrau Da yn cefnogi gwaith amlasiantaethol, gan helpu gwasanaethau ar draws sectorau i alinio ac integreiddio darllen ar y cyd â chymorth ehangach i deuluoedd. Trwy ein partneriaethau, mae gwasanaethau'n cael eu cysylltu i greu llwybrau cyflawni sy'n sicrhau bod Dechrau Da yn cyrraedd y teuluoedd a fydd yn elwa fwyaf. Gydag ymrwymiad a rennir i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a all ddechrau yn ystod plentyndod cynnar, mae cydlynwyr Dechrau Da a phartneriaid blynyddoedd cynnar yn gweithio gyda thîm canolog BookTrust i gyrraedd teuluoedd sy'n wynebu'r heriau mwyaf, gan gynnwys teuluoedd ar incwm isel.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae Dechrau Da wedi cyrraedd mwyfwy o deuluoedd blynyddoedd cynnar trwy leoliadau amlasiantaeth gan gynnwys canolfannau i deuluoedd (Best Start), canolfannau Cychwyn Cadarn a Dechrau'n Deg. Mae ein rhaglenni wedi'u cynllunio i gael eu defnyddio'n hyblyg gan y lleoliadau amlasiantaeth hyn mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion eu cymunedau orau, gan alluogi partneriaid lleol i weithio tuag at eu blaenoriaethau eu hunain. Gall y rhain gynnwys cerrig milltir datblygu iechyd (gan gynnwys lleferydd ac iaith), Oedran a Chyfnodau, Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif a Lefel Dda o Ddatblygiad.



Yn **Barking a Dagenham**, mae staff y ganolfan i deuluoedd yn defnyddio adnoddau ymarferwyr Dechrau Da mewn sesiynau grŵp sydd wedi'u targedu at blant a theuluoedd sydd angen cymorth gyda lleferydd, iaith a chyfathrebu. Trwy fodelu darllen ar y cyd a helpu rhieni i ymgysylltu â llyfrau a straeon o oedran ifanc, nod y grwpiau hyn yw cefnogi rhieni i ddeall yr effaith y gall ymgysylltu cynnar â llyfrau a darllen ei chael ar fondio, ymlyniad, lleferydd ac iaith, gan ysgogi canlyniadau tymor hwy i blant.

Yn **Knowsley**, mae BookTrust yn gweithio gyda phartneriaid blynyddoedd cynnar dibynadwy, gweithwyr iechyd proffesiynol a theuluoedd lleol i archwilio sut i lunio a chyflwyno gweithgarwch adrodd straeon cymunedol mewn ffyrdd sy'n ennyn hyder teuluoedd. Mae Mike Merriman sydd wedi gweithio fel meddyg teulu yn Kirkby am y 25 mlynedd diwethaf yn esbonio:

"Rwy'n gweithio mewn ardal lle mae yna gyrhaeddiad addysgol isel ac oedran darllen isel, yn anffodus. Mae'r pethau hynny'n cael effaith fawr ar iechyd ac anghydraddoldebau bywyd. Mae gennym gyfle i ddod â darllen i'r gofod gofal iechyd. Er enghraifft, rwy'n gwneud clinig babanod wythnosol yn Kirkby, ac mae 95% o'n mamau yma yn mynd trwy'r clinig hwnnw – felly mae gennym gynulleidfa barod...

Gyda chymorth BookTrust, buom yn gweithio gydag ymwelwyr iechyd, bydwragedd, meddygon gofal sylfaenol, y cyngor, y gwasanaeth llyfrgell a gwasanaethau plant i ddod ynghyd a ffurfio grŵp prosiect."

Gyda'i gilydd, mae'r partneriaid hyn wedi nodi ffyrdd o integreiddio cymorth i deuluoedd nad ydynt yn hyderus yn darllen eu hunain megis creu cyfres o brofiadau adrodd straeon cymunedol i deuluoedd lleol yn seiliedig ar adnoddau Dechrau Da yn y Canolfannau i Deuluoedd yn Knowsley.

> "Mae fy mab wrth ei fodd yn darllen straeon gartref, ond fe ddechreuodd hynny i gyd yma. Nawr, mae'n edrych ar dri neu bedwar llyfr cyn mynd i'r gwely. Mae'n dod ymlaen yn dda iawn."
>
> **Rhiant, Knowsley**





Adeiladu ecosystemau darllen cynaliadwy, yn genedlaethol

Trwy Dechrau Da, mae BookTrust yn cefnogi seilwaith cenedlaethol ar gyfer darllen ar y cyd yn y blynyddoedd cynnar. Ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at uchelgeisiau polisi i wella canlyniadau i blant ifanc. Mae hyn yn cynnwys blaenoriaethau'r Llywodraeth a nodir ar gyfer Lloegr yn y weledigaeth *Best Start for Life*, sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd cymorth cydgysylltiedig i deuluoedd a rôl canolfannau i deuluoedd a systemau lleol ehangach wrth hyrwyddo datblygiad cadarnhaol yn ystod plentyndod cynnar *(Llywodraeth EF, 2021)*.

Mae **Dechrau Da Babi** wedi'i hymwreiddio mewn llwybrau ymwelwyr iechyd, gan sicrhau bod cymorth darllen yn gallu cael ei integreiddio mewn cysylltiadau arferol i gyrraedd pob teulu â babi newydd. Mae'r rhaglen, sydd ar gael ym mhob awdurdod lleol, yn cael ei chyflwyno trwy ymwelwyr iechyd, tra bod rhai awdurdodau lleol yn Lloegr yn defnyddio cofrestryddion neu gyfuniad o'r ddau.

7,400+
o lwybrau

Mae **Dechrau Da i Blant Bach/ Oed Cyn Ysgol/ Meithrin** wedi'u hymwreiddio mewn systemau cymorth teuluoedd a blynyddoedd cynnar lleol, gyda phartneriaid yn addasu gweithgarwch cyflawni i strwythurau ac anghenion lleol trwy fwy na 7,400 o lwybrau i gyrraedd teuluoedd ar incwm isel. Yn 2025/26 roedd hyn yn cynnwys:

- **5,950** o leoliadau addysg gynnar
- **580** o ganolfannau plant
- **340** o ganolfannau i deuluoedd
- **280** o wasanaethau iechyd
- **190** o elusennau/sefydliadau cymunedol
- **180** o lyfrgelloedd

Caiff **Amser Stori Dechrau Da** ei ddefnyddio mewn dros 90% o lyfrgelloedd cyhoeddus yn Lloegr a Gogledd Iwerddon – cyfanswm o 2,400 o lyfrgelloedd yn 2025/26. Mae partneriaid mewn llyfrgelloedd yn gweithio gyda sefydliadau gan gynnwys lleoliadau addysg gynnar, canolfannau i deuluoedd, canolfannau plant, gwasanaethau cymorth cynnar a chymdeithasau tai i gysylltu teuluoedd â phlant ifanc â gwasanaethau llyfrgell.

Y cyd-destun cenedlaethol ar gyfer darllen ar y cyd

Mae Dechrau Da yn cael ei chyflwyno mewn cyd-destun heriol i deuluoedd a'r gwasanaethau blynyddoedd cynnar sy'n eu cynorthwyo.

Mae pwysau economaidd cynyddol yn golygu bod llawer o deuluoedd yn profi straen cynyddol, sy'n effeithio ar yr amodau ar gyfer twf a datblygiad pobl ifanc. Mae deinameg gymdeithasol sy'n newid a newid technolegol cyflym yn ail-lunio bywyd teuluol. Mae ein hymchwil yn awgrymu nad yw'r pwysau hyn, na'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn darllen ar y cyd, yn cael eu profi'n gyfartal. Mae anghydraddoldebau ym mhrofiadau plant yn dod i'r amlwg o'u heiliadau cynharaf.

Fel agweddau eraill ar yr amgylchedd dysgu yn y cartref, mae arferion darllen ar y cyd yn gynnar yn amrywio rhwng teuluoedd. Mae ein hymchwil yn dangos bod llai o'r arferion hyn yn cael eu gweld, nid oherwydd bod teuluoedd yn gwerthfawrogi darllen llai ond oherwydd bod pwysau cynyddol ar amser, arferion a chymorth yn gwneud darllen ar y cyd yn anoddach i'w sefydlu a'i gynnal. Felly, mae cryfhau'r amodau sy'n galluogi teuluoedd i ddarllen gyda'i gilydd yn bwysicach nag erioed.



Mae
95%
o bartneriaid yn mynegi pryder am y ffaith bod llai o blant yn darllen er pleser

Mae gwasanaethau blynyddoedd cynnar hefyd yn gweithredu o dan bwysau sylweddol. Mae ein partneriaid yn nodi eu bod yn ymateb i bwysau ariannol cynyddol ar deuluoedd, anghenion teuluol cymhleth a galw cynyddol, tra eu bod nhw eu hunain yn wynebu cyfyngiadau parhaus ar gapasiti, cyllid a'r gweithlu.

Mae partneriaid yn mynegi pryder dwfn am heriau eraill sy'n effeithio ar blant ifanc a theuluoedd yn eu cymunedau, gan gynnwys oedi mewn lleferydd, iaith a chyfathrebu plant (a grybwyllwyd gan 70% o bartneriaid yn ein harolwg diweddaraf o bartneriaid); lles ac iechyd meddwl plant (45%); ac amser a dreulir ar sgriniau (43%).

Mae ymwreiddio ymarfer darllen yn y blynyddoedd cynnar yn y cyd-destun ehangach hwn yn gymhleth ac yn heriol i bartneriaid blynyddoedd cynnar ac ysgolion. Yn ein harolwg o bartneriaid, mae pob math o bartner yn mynegi pryder am lefelau ymgysylltu â darllen ymhlith plant a theuluoedd.

O fewn cyd-destun heriol ac esblygol, mae Dechrau Da yn chwarae rôl bwysig wrth gryfhau cyfleoedd i ddarllen ar y cyd yn gynnar ar raddfa genedlaethol. Ochr yn ochr â chyflwyno Dechrau Da, mae BookTrust yn gweithredu fel yr eiriolwr cenedlaethol dros ddarllen yn y blynyddoedd cynnar. Rydym yn hyrwyddo darllen ar y cyd fel elfen bwysig o'r dechrau gorau mewn bywyd ac yn gweithio gyda phartneriaid i gryfhau'r amodau sy'n galluogi pob plentyn i elwa ar ddarllen yn y blynyddoedd cynnar.

Rydym yn gwybod bod cefnogi pob plentyn i elwa ar ddarllen ar y cyd yn gofyn am fuddsoddiad parhaus mewn gwasanaethau cymorth i deuluoedd, gweithlu blynyddoedd cynnar hyderus a chysylltiedig, gwell mynediad at lyfrau, ac arweinyddiaeth gref ar lefel genedlaethol a lleol. Trwy gynnull arweinwyr ar draws y sector blynyddoedd cynnar, rhannu tystiolaeth o'n hymchwil a'n gweithgarwch gwerthuso rhaglenni, a chyfrannu at ganllawiau, ymgyngoriadau a thrafodaethau cenedlaethol am bolisïau, rydym yn helpu i sicrhau bod rhaglenni Dechrau Da, sydd am ddim ac sy'n cael eu hariannu gan y llywodraeth, yn cael eu defnyddio mor effeithiol â phosibl.

Mae ein hymgyrch Hawliau Darllen genedlaethol – a gyflwynir mewn partneriaeth â Frank Cottrell-Boyce, Llysgennad Hawliau Darllen BookTrust a chyn Fardd Plant Waterstones – yn eirioli dros gydnabod darllen ar y cyd nid fel braint neu rywbeth y mae'n "braf ei gael", ond fel rhan sylfaenol o blentyndod. Mae'r ymgyrch yn galw am weithredu cydgysylltiedig ar draws blynyddoedd cynnar, iechyd, addysg, gofal cymdeithasol plant a diwylliant i leihau anghydraddoldebau o ran darllen. Mae'n tynnu sylw at bum blaenoriaeth ar gyfer newid: hyfforddi'r gweithlu, polisi ac arweiniad, mynediad at lyfrau, rhannu ymchwil a thystiolaeth, ac arweinyddiaeth amlasiantaethol gryfach. Fel partner blynyddoedd cynnar ar gyfer y Flwyddyn Darllen Genedlaethol, mae BookTrust hefyd yn helpu i godi proffil darllen o enedigaeth ac yn parhau i drefnu ein rhwydwaith o bartneriaid cenedlaethol o amgylch uchelgais a rennir i ysbrydoli mwy o blant a theuluoedd i ddarllen.

Dechrau Da ledled y byd

Mae BookTrust yn cyd-gadeirio EURead (Saesneg yn unig), y llais allweddol ar ddarllen plant yn Ewrop, ac mae'n ymgynnull ac yn rheoli'r Rhwydwaith Byd-eang ar gyfer Rhoi Llyfrau Blynyddoedd Cynnar (Saesneg yn unig) hefyd. Mae'r rhwydwaith hwn yn dwyn ynghyd dros 30 o raglenni rhoi yn y blynyddoedd cynnar ar draws pum cyfandir, y mae llawer ohonynt wedi'u hysbrydoli gan Dechrau Da. Mae BookTrust hefyd yn cyd-redeg y rhwydwaith ymchwilwyr rhyngwladol i rannu tystiolaeth ymchwil a gwerthuso ac arfer gorau, ac i lywio blaenoriaethau ymchwil yn y dyfodol.

Beth nesaf i Dechrau Da

Yn BookTrust, rydym wedi ymrwymo i wella'r cymorth a rown i blant a theuluoedd yn barhaus. Rydym yn defnyddio adborth gan deuluoedd a phartneriaid, ochr yn ochr â thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, i lywio datblygiad parhaus ein rhaglenni a sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol, yn ymatebol ac yn effeithiol. Mae'r adran hon yn amlinellu rhai o'n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Cryfhau modelu:
Mae teuluoedd sy'n derbyn mwy o wybodaeth ac arweiniad ochr yn ochr ag adnoddau ffisegol yn adrodd yn gyson ymgysylltiad cryfach a chanlyniadau mwy cadarnhaol o raglenni Dechrau Da. Er bod teuluoedd yn aml yn derbyn gwybodaeth ymarferol, fel yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y pecyn neu fanteision darllen, mae cymorth mwy rhyngweithiol, fel modelu darllen ar y cyd, yn llai cyffredin. Felly, mae cynyddu cyfleoedd i deuluoedd brofi modelu yn gyfle pwysig i gryfhau effaith Dechrau Da.

> "Modelu yw pan fydd ymarferydd yn dangos i rieni a gofalwyr sut y gallan nhw rannu llyfr gyda'u plentyn, tra bod y rhiant neu'r gofalwr yn gwylio neu'n ymuno. Mae ein dysgu yn dangos, pan fydd hyn yn cael ei wneud mewn ffordd gefnogol a chynhwysol, ei fod yn gallu helpu teuluoedd i weld bod eu plentyn yn mwynhau darllen ar y cyd a darganfod dulliau sy'n gweithio iddyn nhw, gan feithrin hyder a chymhelliant."
>
> **Dr. Ly Chu, Prif Arbenigwr Ymchwil, BookTrust**

Beth nesaf:
Byddwn yn cryfhau'r cymorth rydym yn ei roi i'r gweithlu blynyddoedd cynnar o amgylch modelu, trwy hyfforddiant, cymorth ac adnoddau ychwanegol, fel bod mwy o deuluoedd yn derbyn modelu, anogaeth ac arweiniad ymarferol fel rhan o'u profiadau Dechrau Da.

Esblygu model Amser Stori Dechrau Da:
Bellach yn ei bedwaredd flwyddyn, mae Amser Stori Dechrau Da yn cefnogi llyfrgelloedd i ddarparu profiadau adrodd straeon gwerthfawr iawn mewn grŵp. Rydym yn archwilio nawr sut y gall y model gyrraedd teuluoedd sy'n llai tebygol o ymgysylltu â llyfrgelloedd neu weithgareddau rhannu straeon sydd wedi'u trefnu yn well. Rydym wedi bod yn dysgu gyda phartneriaid am yr hyn sy'n gweithio i greu gweithgarwch allgymorth effeithiol a darpariaeth brofedig mewn ystod ehangach o leoliadau cymunedol.

> "Mae Amser Stori yn parhau i fod yn rhan boblogaidd o'r ddarpariaeth llyfrgelloedd sy'n cefnogi gwaith partneriaid gyda phlant ifanc a theuluoedd. Wrth i ni edrych ymlaen, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod lle i adnewyddu'r cynnig fel ei fod yn darparu hyd yn oed mwy o werth i lyfrgelloedd ac yn cefnogi ein huchelgais i gyrraedd teuluoedd sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i ddarllen yn well."
>
> **Francesca Fauvet, Arweinydd Dylunio Blynyddoedd Cynnar, BookTrust**

Beth nesaf:
Byddwn yn diweddaru model Amser Stori Dechrau Da ac yn parhau i ddysgu sut y gallwn gefnogi gwell cyfleoedd darllen mewn llyfrgelloedd a chymunedau.





Ymateb i'r cyd-destun blynyddoedd cynnar sy'n newid:

Mae ein rhaglenni anghenion ychwanegol a dwy iaith Dechrau Da yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan deuluoedd ac ymarferwyr, ond wrth i nifer ac amrywiaeth y teuluoedd y gallai fod angen cymorth arbenigol arnynt barhau i gynyddu, mae angen i ni ymateb i'r cyd-destun hwn.

> "Mae cael llyfrau hyfryd BookTrust, sydd o ansawdd uchel, mor bwysig. Mae'n ymwneud â chyrraedd y rhai sydd â'r angen mwyaf, na fyddent fel arall efallai yn cael mynediad at lyfrgelloedd a llyfrau. Mae'n ymwneud â gweithio ochr yn ochr â theuluoedd i geisio chwalu'r rhwystrau a allai fod ganddyn nhw i rannu straeon... Roedd un wraig yn teimlo'n ynysig iawn. Trwy BookTrust, llwyddwyd i gael llyfr iddi yn Tigrinya, ac fe wnaeth roi llyfr iddi yn ei hiaith frodorol helpu i wneud iddi deimlo'n llai ynysig."
>
> **Partner Dechrau Da**

Beth nesaf:

Byddwn yn archwilio sut y gall ein rhaglenni anghenion ychwanegol Dechrau Da (Touch, Shine and Star) a'n rhaglen Dwy Iaith esblygu i ddiwallu anghenion teuluoedd a phartneriaid orau.

Cryfhau cymorth i bartneriaid:

Mae llwyddiant Dechrau Da yn dibynnu ar arbenigedd partneriaid blynyddoedd cynnar sy'n addasu ac yn teilwra cymorth i anghenion teuluoedd a rhwydweithiau lleol. Rydym wedi ymrwymo i helpu pob partner, lle y bo angen, i deimlo'n hyderus ac yn barod i ddarparu cymorth darllen mewn ffyrdd sy'n gweithio i'w gymunedau, fel bod hyd yn oed mwy o deuluoedd yn gallu elwa ar Dechrau Da.

> "Wrth i ganolfannau i deuluoedd ddod yn rhan fwyfwy sefydledig o dirwedd y blynyddoedd cynnar, maen nhw'n rhoi cyfle pwysig i gyrraedd teuluoedd trwy berthnasoedd dibynadwy a chymorth cydgysylltiedig. Trwy gryfhau sut rydym yn ymwreiddio darllen a rhannu straeon yn y gwasanaethau bob dydd hyn, gallwn ni sicrhau bod mwy o deuluoedd yn derbyn cymorth wedi'i deilwra sy'n diwallu eu hanghenion."
>
> **Katy McNamara, Uwch Reolwr Partneriaethau, BookTrust**

Beth nesaf:

Byddwn yn gwella'r cymorth rydym yn ei roi i bartneriaid Dechrau Da, gan weithio gyda chanolfannau i deuluoedd i gynhyrchu arweiniad, hyfforddiant a dysgu a rennir, i helpu gwasanaethau lleol i ymwreiddio cymorth darllen mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu anghenion eu sefydliadau a'u cymunedau.



Cyfeiriadau

BookTrust (2022) *Storytime summary of key lessons from first year of pilot*. Leeds: BookTrust. Ar gael yn: Canfyddiadau gwerthuso diweddaraf Amser Stori Dechrau Da | BookTrust (Cyrchwyd Awst 2026).

BookTrust (2025a) *Sut mae darllen yn esblygu yn y blynyddoedd cynnar: mewnwelediadau hydredol gan deuluoedd*. Leeds: BookTrust.

BookTrust (2025) *Manteision darllen*. Leeds: BookTrust. Ar gael yn: https://www.booktrust.org.uk/cy-gb/resources/reading-benefits/ (Cyrchwyd Awst 2026).

BookTrust (2026) *Arolwg Teuluoedd Cenedlaethol BookTrust: Tueddiadau, ysgogwyr ac anghydraddoldebau darllen yn ystod plentyndod yn y DU*. Leeds: BookTrust. Ar gael yn: https://www.booktrust.org.uk/cy-gb/resources/find-resources/family-survey/ (Cyrchwyd Awst 2026).

BookTrust ac Untapped Innovation (2023) Ymchwil ethnograffeg fideo gyda 24 o rieni/gofalwyr ar incwm isel yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Canfyddiadau heb eu cyhoeddi.

Canfield, C. F., Miller, E. B., Shaw, D. S., Morris, P., Alonso, A. a Mendelsohn, A. L. (2020) 'Beyond language: Impacts of shared reading on parenting stress and early parent-child relational health', *Developmental psychology*, 56(7), tt. 1305-1315. https://doi.org/10.1037/dev0000940 (Saesneg yn unig).

Galea, C., Jones, A., Ko, K., Salins, A., Robidoux, S., Noble, C. a McArthur, G. (2025) 'Home based shared book reading and developmental outcomes in young children: a systematic review with meta-analyses', *Frontiers in Language Sciences*, 4. https://doi.org/10.3389/flang.2025.1540562 (Saesneg yn unig).

Llywodraeth EF (2021) *The best start for life: a vision for the 1,001 critical days*. Llundain: Llywodraeth EF. Ar gael yn: Cyhoeddiad GOV.UK (Saesneg yn unig) (Cyrchwyd Awst 2026).

I ddyfynnu'r adroddiad hwn: BookTrust (2026) *Adroddiad Effaith Dechrau Da 25/26*. Leeds: BookTrust

Atodiad

Nodiadau ar fethodoleg

Nid yw'r canlyniadau o arolygon y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn wedi'u pwysoli ac efallai na fyddant yn gynrychioliadol o'r holl deuluoedd sy'n ymgysylltu â rhaglenni Dechrau Da. Gall cysylltiadau a arsylwir adlewyrchu nodweddion teuluol, llwybrau cyflawni, amseriadau, atgofion neu ymgysylltiad blaenorol â rhaglenni a chymorth darllen. Mae'r ddwy sampl deuluol (Babi a Phlant Bach/Oed Cyn Ysgol/Meithrin) yn samplau trawstoriadol gwahanol ac felly ni ellir dehongli gwahaniaethau rhyngddynt fel cynnydd neu effeithiolrwydd cymharol rhaglenni.

Nodweddion y samplau a ddefnyddiwyd

Tabl 1: Nodweddion sampl arolwg partneriaid Dechrau Da (N = 644)

	%	N
Gwlad		
Lloegr	80%	515
Cymru	11%	71
Gogledd Iwerddon	9%	58
Math o sefydliad		
Addysg Blynyddoedd Cynnar	41%	261
Llyfrgell	22%	141
Lleoliad cymorth i deuluoedd	11%	70
Cysylltiedig ag iechyd	12%	79
Sefydliad trydydd sector	5%	34
Arall	3%	19
Cydlynydd Dechrau Da		
Ie	27%	149
Na	68%	374
Rhaglenni Dechrau Da a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn ddiwethaf		
Babi	34%	206
Anghenion ychwanegol	21%	124
Dwy iaith	30%	180
Amser Stori	27%	165
Plant Bach	47%	286
Plant Oed Cyn Ysgol/Meithrin	60%	364
Plant Bach a Phlant Oed Cyn Ysgol/Meithrin	72%	433

* Efallai na fydd y canrannau yn dod i gyfanswm o 100% oherwydd data coll

Tabl 2: Nodweddion sampl Plant Bach/Oed Cyn Ysgol/Meithrin (N=577) a sampl Babi (N=1578)

	Plant Bach ac Oed Cyn Ysgol/Meithrin		Babi	
	%	n	%	n
Gwlad				
Lloegr	93%	538	95%	1496
Cymru	2%	12	1%	22
Gogledd Iwerddon	5%	27	4%	60
Incwm y cartref[3]				
Isel	48%	275	40%	634
Ddim yn isel	52%	302	60%	944
Pryderon am addysg arbennig/anghenion dysgu neu ddatblygu ychwanegol				
Oes	14%	56		
Nac oes	85%	351		
Pryderon am leferydd ac iaith				
Oes	18%	74		
Nac oes	81%	331		
Iaith gyntaf				
Saesneg	77%	359		
Cymraeg	<1%	2		
Arall[a]	22%	104		

[a] Nodwyd cyfanswm o 44 o ieithoedd a'r mwyaf cyffredin yn eu plith oedd Sbaeneg (11 o ymatebwyr), Wrdw (9 ymatebydd), Arabeg (7 ymatebydd), Tigrinya (6 ymatebydd), Portiwgaleg (6 ymatebydd), Somali (6 ymatebydd), Cantoneg (4 ymatebydd), a Ffrangeg (4 ymatebydd).

* Efallai na fydd y canrannau yn dod i gyfanswm o 100% oherwydd data coll

Ôl-nodiadau

1 Sylwch fod cyllid ar gyfer Pori Drwy Stori Derbyn wedi'i dynnu'n ôl nawr gan Lywodraeth Cymru

2 Finger Wiggle: Look At Me! gan Sally Symes a Nick Sharratt, a gyhoeddwyd gan Walker Books

3 Yn ein harolwg, mae incwm aelwydydd yn cyfeirio at gyfanswm yr incwm blynyddol cyn treth o bob ffynhonnell a holl aelodau'r aelwyd, fel yr adroddwyd gan yr ymatebydd. Mae incwm yn cael ei grwpio yn ôl cyfansoddiad yr aelwyd, gydag incwm isel wedi'i ddiffinio fel £28,000 neu lai ar gyfer aelwydydd sy'n oedolyn sengl a £42,000 neu lai ar gyfer aelwydydd sydd â dau oedolyn neu fwy. Mae'r trothwyon yn cael eu llywio gan ystadegau Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog (HBAI).

